Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Iolo Morganwg
Broadway
Y Bont-Faen
CF71 7ER

16/04/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Mawrth 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Iolo Morganwg yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas a dwy flaenoriaeth fel rhan o'r cynllun gwella ysgol cyfredol. Manteisiodd y tîm ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Datblygu addysgeg a darpariaeth effeithiol sy'n sicrhau bod disgyblion yn caffael medrau darllen angenrheidiol i gefnogi eu gwaith a gwneud cynnydd

- Mae gan arweinwyr weledigaeth berthnasol i ddarparu profiadau darllen ysgogol i ddisgyblion er mwyn meithrin eu cariad at lyfrau a'u cefnogi i wneud cynnydd yn eu medrau.
- Mae staff yn cael mynediad at ddysgu proffesiynol gwerthfawr i wella eu harfer ac ehangu'r ddarpariaeth ddarllen, er enghraifft i gefnogi'r disgyblion hŷn i ddatblygu eu huwch fedrau darllen.
- Trwy gydweithio bwriadus ag ysgolion lleol, mae staff yn arsylwi arferion effeithiol ac yn cydweithio ar gynlluniau cytûn er mwyn eu hymgorffori'n fwriadus yn y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar draws yr ysgol.
- Mae gan staff ddealltwriaeth dda o ddulliau addysgu a dysgu darllen. At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth yn diwallu diddordebau ac anghenion disgyblion ac yn eu cefnogi i wneud cynnydd da yn eu medrau.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Yn yr arfer orau, mae staff yn egluro ystyr geiriau anghyfarwydd yn fwriadus ac yn holi disgyblion yn grefftus i gadarnhau eu dealltwriaeth o gynnwys testunau amrywiol. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael medrau darllen angenrheidiol i gefnogi eu dysgu ar draws y meysydd dysgu yn llwyddiannus.
- Mae gan staff wybodaeth berthnasol am gynnydd disgyblion mewn medrau darllen.
  Mae arweinwyr yn olrhain cynnydd disgyblion yn y medrau hyn yn fuddiol ac yn darparu cefnogaeth bellach i'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol er mwyn datblygu eu medrau yn adeiladol dros amser.
- Mae staff yn hyrwyddo diwylliant darllen o fewn yr amgylchedd dysgu yn greadigol. Maent yn darllen llyfrau ysgogol i ddisgyblion yn gyson er mwyn dwysáu eu dealltwriaeth o wahanol destunau ac i feithrin eu cariad at ddarllen. Yn gyffredinol, mae gwybodaeth disgyblion am destunau Cymraeg sydd wedi'u hysgrifennu gan awduron o Gymru yn briodol.
- Trwy gyfathrebu cyson rhwng yr ysgol a'r cartref, mae gan rieni ddealltwriaeth fuddiol o brofiadau a chynnydd eu plant mewn medrau darllen. O ganlyniad i gysylltiadau rhagweithiol staff â'r gymuned, mae athrawon yn manteisio ar gyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau darllen y tu hwnt i'r ysgol.

### Parhau a datblygu cwricwlwm ysgol cydlynol, ynghyd â chontinwwm dysgu cadarn, sy'n hyrwyddo cynnydd disgyblion ac yn sicrhau ehangder a dyfnder ar draws y meysydd dysgu a phrofiad

- Mae gan arweinwyr weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer datblygu cwricwlwm cydlynol a chynhwysol i ddiwallu anghenion lles a dysgu disgyblion, gan gynnwys rhoi ffocws clir ar ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.
- Mae arweinwyr a staff yn darparu trosolwg buddiol o'r cwricwlwm sy'n cynnwys gwerthoedd cytûn yr ysgol, sydd, yn ei dro, yn meithrin balchder disgyblion dros fod yn aelodau gwerthfawr o'r gymuned ddysgu. Trwy'r gwerthoedd hyn, mae disgyblion yn ymfalchïo yn yr ysgol ac yn eu gwreiddiau yn y gymuned leol, ac yn dathlu'r Gymraeg a hanes a diwylliant Cymru a'r byd ehangach yn llwyddiannus.
- Mae arweinwyr yn parhau i gynllunio a gweithredu'n strategol gan gyflwyno a datblygu dulliau addysgu a dysgu amrywiol er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth ymhellach. Ar cyfan, mae arweinwyr yn monitro a gwerthuso effaith y ddarpariaeth, sy'n esblygu'n barhaus, ar gynnydd disgyblion. Mae staff yn parhau i gynllunio a darparu gweithgareddau perthnasol sy'n sicrhau ehangder a dyfnder yn nysgu'r disgyblion ar draws y meysydd dysgu.
- Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson i staff er mwyn eu cefnogi i arwain a chynllunio cwricwlwm sy'n datblygu a hyrwyddo medrau

disgyblion yn gyson. At ei gilydd, mae disgyblion yn dechrau perchnogi eu dysgu gan gyfrannu awgrymiadau perthnasol i'w gweithgareddau a thrwy gyfleu sut yr hoffent ddysgu a chyflwyno eu gwaith.
- Trwy ddisgwyliadau uchel athrawon, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau ar draws y cwricwlwm ac yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'u dysgu ac yn mwynhau trafod a rhannu eu gwaith gyda disgyblion eraill ac oedolion.
- Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ddeilliannau disgyblion i lywio'r cynllunio tymor byr. Yn yr arfer orau, darperir her berthnasol i ddisgyblion er mwyn eu cefnogi i wneud cynnydd adeiladol yn eu medrau. Yn gyffredinol, mae staff yn parhau i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau i ddisgyblion gymhwyso a datblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6732165

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol